**ATODLEN 1**

**YR WYBODAETH SYDD I'W CHYNNWYS MEWN CAIS AM GANIATÅD I OLLWNG NEU FARCHNATA UWCHBLANHIGION A ADDASWYD YN ENETIG**

# Rhan VI

## GWYBODAETH SY'N YMWNEUD Å'R GOLLYNGIAD

*(Ceisiadau am ganiatâd i ollwng yn unig)*

**30.** Diben gollwng y planhigyn a addaswyd yn enetig, gan gynnwys ei ddefnydd cychwynnol ac unrhyw fwriad i'w ddefnyddio fel neu mewn cynnyrch yn y dyfodol.

**31.** Y dyddiad neu'r dyddiadau a ragwelir ar gyfer y gollwng a hyd y gollwng.

**32.** Y dull a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer gollwng y planhigion a addaswyd yn enetig.

**33.** Y dull ar gyfer paratoi a rheoli safle'r gollyngiad, cyn, yn ystod ac yn dilyn y gollyngiad, gan gynnwys arferion amaethu a dulliau cynaeafu.

**34.** Bras amcan o nifer y planhigion a addaswyd yn enetig (neu blanhigion fesul m2) sydd i'w gollwng.